RHANNWCH Y **BWLETIN** Â HOLL STAFF YR YSGOL A'U HANNOG I **DANYSGRIFIO.**

# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL GwE — CLICIWCH YMA

## CYFARFODYDD RHWYDWEITHIAU GwE

### Rhwydwaith 3-8 Tymor yr Hydref

Ffocws ar rannu syniadau am ffyrdd effeithiol o ddal cynnydd disgyblion gan ddefnyddio Seesaw.
[Manylion llawn, dyddiadau a manylion cofrestru ar gael yma.]

### Rhwydwaith Cydlynwyr Sgiliau BAC Uwch

Swyddfa GwE, Bryn Eirias | 28/11/2024 | 13:30-15:30 | MANYLION LLAWN A CHOFRESTRU

Cyfle i rannu syniadau ynghylch rhaglen dysgu ac addysgu y cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch newydd.

1. Diweddariad gan Sian Coathup (CBAC)
2. Cynllunio ar gyfer y Prosiect Unigol: Ysgolion i rannu cynllun/adnoddau dysgu ac addysgu
3. Rhwydweithio a dyddiad ar gyfer cyfarfod tymor y Gwanwyn, ac unrhyw ddiweddariad i'r safle Teams **(Dewch â gliniadur ac unrhyw esiamplau o adnoddau y byddech chi'n hapus eu rhannu!)**

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

### Sgiliau Disgyblaethol – Ffocws MDaPh: Ysgolion Uwchradd





**CYD-WEITHWYR UWCHRADD: Angen cymorth i adnabod cyfleoedd trawsgwricwlaidd cyfoethog yn eich Maes Dysgu a Phrofiad?**

**Disgrifiad/ Deilliannau:**

- Helpu MDaPh i gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn eu disgyblaeth mewn ffordd ddilys.
- Datblygu dealltwriaeth arweinwyr canol ac ymarferwyr dosbarth o sut mae sgiliau llafaredd a darllen, rhifedd a digidol yn rhan annatod o lwyddiant disgyblion wrth wneud cynnydd yn eu disgyblaeth.
- Rhoi cyfle i ymarferwyr weithio efo YCG pwnc a sgiliau, a rhwydweithio efo arbenigwyr pwnc tebyg

[Manylion llawn a chofrestru ar gael yma.]

## Athrawon mewn ysgolion uwchradd: Amrywiaethu'r testunau rydych chi'n eu haddysgu yn Gymraeg a Saesneg

Digwyddiadau ar-lein, am ddim. Byddwn yn rhannu adnoddau digidol am ddim, sut i'w defnyddio ac yn cynnal sesiwn Holi ac Ateb. Lluniwyd ein hadnoddau mewn cydweithrediad â GwE, gydag anghenion athrawon uwchradd gogledd Cymru mewn golwg. Dilynwch y dolenni am wybodaeth ac i gofrestru.

- 11/11/2024 digwyddiad yn Gymraeg, ar amrywiaethu testunau yn Gymraeg.
- 12/11/2024 digwyddiad yn Saesneg, ar amrywiaethu testunau yn Saesneg.

## Datblygu darllen yn eich ysgol gan ddefnyddio strategaethau effeithiol a chreu diwylliant o gariad at ddarllen

ADDAS AR GYFER ATHRAWON DOSBARTH (8-11) A/NEU CYDLYNWYR LLYTHRENNEDD

**RHAGLEN UNDYDD | SESIYNAU DWYIEITHOG | 9:00-15:30 | MANYLION LLAWN AR GAEL YMA**

Yn ystod y rhaglen undydd hon, byddwn yn edrych ar y gwahanol elfennau o ddarllen sydd eu hangen i greu darllenwyr effeithiol, gan gynnwys grym llafaredd i gefnogi a datblygu sgiliau darllenwyr. Byddwn yn rhannu strategaethau a gwybodaeth i gefnogi eich taith tuag at greu ethos darllen difyr ac ysbrydoli eich dysgwyr i ddarllen. Bydd tasg ddilynol yn cael ei gosod i'r holl fynychwyr gyda'r YCG Cyswllt yn monitro effaith.

**DYDDIADAU, LLEOLIADAU A CHOFRESTRU:**

26/11/2024 – Linden House, Yr Wyddgrug | 27/11/2024 – Bryn Eirias, Bae Colwyn | 28/11/2024 – Penrallt, Caernarfon

**YMUNWCH Â'R RHESTR AROS**

LLEFYDD YN BRIN AR RAI DYDDIADAU

## Cynllunio'n Bwrpasol ar gyfer Sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Digidol o fewn Thema Dosbarth 8-11

Yn ystod y rhaglen ddeuddydd hon, byddwn yn edrych ar sut y gellir cyfuno'r gwahanol fframweithiau trawsgwricwlaidd yn greadigol i greu darpariaeth ddosbarth sy'n gyfoethog, yn ysbrydoli ac yn bwrpasol. Bydd ymarferwyr yn cwblhau gweithgareddau ymarferol ac yn cydweithio i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gynllunio trawsgwricwlaidd. Am ragor o wybodaeth, cliciwch yma.

LLEFYDD YN BRIN IAWN

## Astudiaethau Achos Gwyddoniaeth a Thechnoleg [8-11 oed]



**CYNLLUNIO GWYDDONIAETH A THECHNOLEG A'R SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD**


Ymarferwyr rhanbarthol yn cyflwyno syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu profiadau dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ystod y sesiwn, edrychir ar:

- Themâu a chyd-destunau cyfoes.
- Profiadau ac ymholiadau i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth wyddonol dysgwyr.
- Cyfleoedd i gymhwyso'r sgiliau trawsgwricwlaidd.

**Cofrestrwch drwy glicio ar un o'r dyddiadau isod:**

06/11/2024 - 16:00-17:30 - Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [CYFRWNG SAESNEG] DYDDIAD WEDI NEWID

## Archwilio amlieithrwydd ar draws ILlCh



**Dr Elin Arfon, UCL, prifysgol Caerdydd Gynt | 13/11/2024 | Ar-lein | 15:45-17:00**

Sesiwn rhyngweithiol i ymarferwyr Ieithoedd Rhyngwladol /Cymraeg iaith gyntaf/Cymraeg mewn lleoliadau Saesneg/ Saesneg, yn trafod gweithio ar y cyd a datblygu cysylltiadau addysgegol rhwng Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol. Rhennir syniadau defnyddiol ac ymarferol gan athrawon Cymru ac eraill. Bydd y trafodaethau rhyngweithiol yn helpu aelodau i ddatblygu syniadau a chamau gweithredu posib i symud eu gwaith cynllunio ymlaen. **Manylion a chofrestru yma.**

# ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO [ANG]

## Amserlen Hyfforddiant ANG GwE

Mae cynnig ANG GwE ar gyfer 2024-25 (sesiynau 3 i 6) y rhaglen Genedlaethol yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd TEAMS trwy safle TEAMS GwE. **Mae disgwyl i bob ANG fynychu'r sesiynau**.

Gweler yr amserlen a manylion cofrestru yma. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ieuan Jones.

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

## Rhaglen Datblygu Darpar CALU





Mae ***Cylch 10*** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Ionawr 2025.

Y **DYDDIAD CAU** yw **25/11/2024**.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am y rhaglen a sut i ymgeisio.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams, Cydlynydd LlDGA.




## Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu i Gynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus iddyn nhw ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, cliciwch yma.

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

## Cyhoeddiad newydd gan GwE ar y cyd â Phrifysgol Bangor

***'THE FACTORS THAT INFORM SCHOOL LEADERS' DECISIONS WHEN ADOPTING PROGRAMMES TO USE IN SCHOOLS.'***

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau un o'n prosiectau ymchwil ar y cyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yng Nghylchgrawn Addysg Cymru . Gwnaethpwyd y gwaith hwn gydag ymchwilwyr o Brifysgol Bangor fel rhan o waith GwE i helpu i ddefnyddio canfyddiadau ymchwil i lywio polisi ac ymarfer.

Manylion llawn ar gael yma.

## Arolwg ymarferwyr am Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Ydych chi'n gweithio mewn lleoliad addysg ac eisiau rhannu eich barn ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant 5-8 oed ers pandemig Covid-19?

Cliciwch yma i gymryd rhan mewn arolwg byr.

## A yw eich ysgol yn ceisio helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref?

**YDYCH CHI'N CREDU BOD GAN EICH YSGOL RIENI/GOFALWYR DISGYBLION YM MLYNYDDOEDD 3, 4, 5, AC/NEU 6 A ALLAI DREIALU SUT Y GELLIR DEFNYDDIO EIN CYFRES O ADNODDAU DATBLYGU RHUGLDER RHIFEDD SAFMEDS GARTREF?**

Os felly, yn nhymor y Gwanwyn 2025, byddwn yn cynnig cyflwyniad i'r deunyddiau i rieni sydd â diddordeb ac yn dangos iddynt sut y gallant helpu eu plentyn gartref. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

# Y GYMRAEG

## Gweithdy tridiau Ein Llais Ni

Cynhelir y rhaglen dros gyfnod o dri diwrnod yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn. Bydd disgwyl i bob aelod gynllunio cyfleoedd ymarferol i ddatblygu a chymhwyso medrau siarad a gwrando mewn cyd-destunau dilys a byw ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o dasgau rhwng y sesiynau. Cynigir canllawiau, adnoddau ac enghreifftiau gan ysgolion yn ogystal â chefnogaeth i arwain y maes yn llwyddiannus.

Cliciwch yma ar gyfer dyddiadau ac i gofrestru.

## Cyngor Llyfrau Cymru: Pecyn Dathlu Darllen

Dyma ein Pecyn Dathlu Darllen ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd - pecyn sy'n llawn dop o syniadau, gweithgareddau ac adnoddau arbennig i fwynhau darllen yn y dosbarth.

Lawrlwythwch eich pecyn AM DDIM yma.

## Cyfle i Ddatblygu Sgiliau Cymraeg Cymorthyddion ADY

**MAE LLEFYDD YN BRIN. DYDDIAD CAU MYNEGI DIDDORDEB: 24 HYDREF 2024**

**Beth?** Cyfres o sesiynau rhithiol i feddu ar batrymau addas ar gyfer gweithio o ddydd i ddydd gyda disgyblion ag ADY.

**Pwy?** Sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu y sectorau cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**Pryd?** Sesiynau wythnosol am 10 wythnos, yn dechrau Ionawr 2025.

**Sut?** Cwblhewch y ffurflen i gofrestru eich diddordeb, a bydd gwybodaeth bellach ar gael yn fuan.




## Y Gymraeg – Cynllunio'n Strategol: Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth

Ydych chi'n bennaeth neu'n arweinydd ac yn awyddus i gryfhau eich dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn eich ysgol?

Mae cyrsiau penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig yn drawsranbarthol yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn. [Sesiwn bore dros Teams]

Mae posib cofrestru drwy ddefnyddio'r dolenni yma:

Ysgolion cyfrwng Saesneg - 22/01/2025 Ysgolion cyfrwng Cymraeg - 23/01/2025

## Cwrs Lefel Mynediad

**I GYNORTHWYWYR DOSBARTH MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG**

Cwrs 5 wythnos wyneb yn wyneb, yn y Ganolfan Iaith yn Llanelwy 2 Mehefin – 4 Gorffennaf 2025

Cliciwch yma am ragor o fanylion.




## Cwrs Dysgu Cymraeg hunan astudio ar-lein Lefel Mynediad

**WEDI'I DEILWRA'N ARBENNIG AR GYFER CYMORTHYDDION DYSGU SYLFAEN**

Manylion llawn a QR i gofrestru yma.



# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

**Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:** CYNRADD | UWCHRADD

## SECTOR CYNRADD

### Gwreiddio Ieithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm cynradd

**DIWRNOD HYFFORDDIANT DYSGU PROFFESIYNOL GYDA RICHARD TALLARON, POWER LANGUAGE**

26/11/2024 | 9:15-15:00 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

Mae'r diwrnod wedi'i gynllunio ar y cyd rhwng ein tîm Dyfodol Byd-eang a'n partneriaid yn Power Language, a'r bwriad yw rhoi syniadau ymarferol i athrawon ysgolion cynradd allu gwreiddio ieithoedd yn effeithiol yn eu cwricwlwm, boed yr athrawon hynny'n arbenigwyr iaith ai peidio gan gynnwys gweithgareddau drama, Y Celtiaid, Gemau maes chwarae, sgwrs GPT, Cysylltiadau rhyngwladol, Gweithdy micro-addysgu. Manylion a chofrestru yma

### Adnoddau Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

**PROSIECT ABI: CANOLFAN SAIN GOLWG ARWYDDION**

Dwy set o gyfres o 20 llyfr (10 Cymraeg a 10 Saesneg) gyda dolenni i wefan ryngweithiol i ddysgu am Iaith Arwyddion Prydain a chefnogi ysgolion ac athrawon anarbenigol i ddysgu BSL i ddechreuwyr pur – maent ar gael yn rhad ac am ddim i ysgolion GwE. Os nad oes gennych gopïau, cysylltwch â COS: info@signsightsound.org.uk

Ymunwch â thîm Prosiect Abi o COS yn STAND Sioe Deithiol Anabledd Gogledd Cymru o 10yb tan 3yp ar 30 Hydref 2024. Gweler y poster am fwy o wybodaeth.



## SECTOR UWCHRADD

CYFLE DYSGU PROFFESIYNOL

### Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg: Cyfieithu Creadigol ar gyfer ITM, Cymraeg a Saesneg

**Sesiwn Dysgu Proffesiynol | Ar-lein | 26/11/2024 | 15.30-17.00**

Manylion llawn a chofrestru yma.

## CODI PROFFIL IEITHOEDD A PHROFIADAU DYSGU

### Cystadleuaeth Iaith Genedlaethol GCHQ

**BLWYDDYN 9 | 18-22 TACHWEDD 2024**

Nod y gystadleuaeth yw gwneud ieithoedd yn hwyl, ysbrydoli dysgu iaith a thynnu sylw at yr amryw byd o sgiliau trosglwyddadwy y gall dysgu iaith eu datblygu hefyd. Cewch fwy o wybodaeth am y gystadleuaeth drwy glicio ar y ddolen hon. **Pecyn cymorth yn Gymraeg a Saesneg** yma.

### Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes Blwyddyn 9 ym Mhrestatyn ac Aberconwy

**RHAGFYR 2024**

Cyfle i ddysgwyr blwyddyn 9 gymryd rhan mewn diwrnod menter difyr a chyffrous.

Manylion llawn a chofrestru yma

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

**Cliciwch yma** i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol i holl staff Cymru.

## Athrawon Newydd Gymhwyso [ANG]

Dilynwch y **ddolen hon** i weld clipiau fideo o 'Sesiwn 1: Cyfarwyddyd Cenedlaethol gan Dîm Sefydlu ANG y Consortia' a 'Sesiwn 1: Trosolwg o'r Proffil Sefydlu gan y CGA'. Cewch yno hefyd **ddolen i gofrestru** ar gyfer y digwyddiad nesaf ynghyd â dolen i'r **dudalen werthuso**.

**Cliciwch yma am gopi o'r Llawlyfr Sefydlu.**

## Mentoriaid Sefydlu a Dilyswyr ANG

TREFNIADAU SEFYDLU ANG AR GYFER MENTORIAID SEFYDLU A DILYSWYR SEFYDLU

Cliciwch yma i wylio recordiad o'r sesiynau gan Dîm Sefydlu ANG y Consortia a Chyngor y Gweithlu Addysg.

## Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso

- **Newidiadau yn y Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso: Medi 2024**
- **Cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ANG: Tymor yr Hydref 2024**
- **Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Mentoriaid Sefydlu/Dilyswr: 2024-2025**

## Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16

Mae'r rhaglen ar gyfer **darpar arweinwyr ôl-16, arweinwyr newydd a chyfredol**, ac fe'i lluniwyd i roi cyfle i gyd-weithwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth iddynt baratoi at heriau arweinyddiaeth ôl-16. Cyflwynir y rhaglen trwy ddull dysgu cyfunol, a hynny gan gyd-weithwyr arbenigol ôl-16 yn y rhanbarth ac arweinwyr ôl-16 profiadol. **Manylion llawn, dyddiadau a chofrestru ar gael yma**.

## Rhaglen Genedlaethol Cwricwlwm i Gymru: Hyfforddiant gloywi i Gynorthwywyr Addysgu

11/11/2024 | 13:00-15:30 | Digwyddiad Ar-lein | **COFRESTRU** **[Cyfrwng Cymraeg]**

Mae'r sesiwn hon yn ddiweddariad ar y Cwricwlwm i Gymru i'r holl Gynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch sy'n gweithio yng Nghymru. Bydd y sesiwn yn edrych ar y pedwar diben, cynnydd ac asesu a'ch rôl wrth gefnogi'r agweddau hyn ar y fframwaith yn yr ystafell ddosbarth. **Manylion llawn ar gael yma**.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Ar gais ysgolion, mae'r gweithdai a hysbysebwyd ar gyfer tymor yr Haf 2024 wedi'u datblygu fel sesiynau anghydamserol, yn hytrach na sesiynau byw.

**Dilynwch y ddolen i recordiadau a chyflwyniadau PowerPoint cyfres dysgu proffesiynol trawsranbarthol 2023/24 ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad.**

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

## Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Mae'r canllawiau'n cysoni'r trefniadau â datblygiadau mewn gwella ysgolion a dysgu proffesiynol, a'u nod yw cefnogi'r proffesiwn i wynebu'r heriau presennol a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

Gweler y dolenni canlynol i'r **canllawiau** a'r **astudiaethau achos** cysylltiedig.

## Canllawiau Statudol ar Ddysgu 14 i 16

Ddydd Mercher, 18/09/2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg **Canllawiau statudol ar Ddysgu 14 i 16** o dan y Cwricwlwm i Gymru.

## Datblygu cefnogaeth ar gyfer y broses o gynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru

Ers hysbysebu'r gefnogaeth hon ar gyfer cynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu yn ystod tymor yr haf, rydym wedi cael ymateb mor gadarnhaol fel bod carfanau 1 a 2 eisoes yn llawn. Mae hyn yn golygu ein bod yn ceisio cynyddu capasiti'r cynnig hwn cyn gynted â phosibl.

Mwy o fanylion - **Datblygu cefnogaeth ar gyfer y broses o gynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru - Hwb (gov.wales)**

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

e-sgol



### Cewri Cymru - Iolo Williams

NEWYDD

Ymunwch yn Nangosiad Cyntaf y Cawr diweddaraf, Iolo Williams, ddydd Gwener, 25 Hydref am 09:15yb.
Bydd Iolo yn ymuno ag e-sgol am Wasanaeth Byw ar 15 Tachwedd.






### Gwersi Almaeneg

Cyfres o sesiynau Almaeneg rhithiol wythnosol i ddechrau ym mis Tachwedd sy'n addas ar gyfer dysgwyr bl.3-6. **Cofrestrwch eich dosbarth yma**.

**COFRESTRWCH EICH DOSBARTH ERBYN AMSER CINIO AR Y 04/11/2024.**



### Cyfrinachau Curo

Modiwl o bedair sesiwn rithiol ar gyfer dysgwyr MAT blynyddoedd 5 a 6 ym maes mathemateg a rhifedd gyda Phrifysgol Caerdydd. **Cofrestrwch yma**.

**COFRESTRU ERBYN 12PM, 06/11/2024.**



### Gwasanaethau Hawliau Plant: Comisiynydd Plant Cymru

Bydd Sophie Williams o dîm Comisiynydd Plant Cymru yn ymuno ag e-sgol er mwyn cynnal gwasanaethau arbennig ar 13 a 20 Tachwedd.

**DYDDIADAU, AMSEROEDD A CHOFRESTRU AR GAEL YMA.**